**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

—

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

28 Ebrill 2023

Annwyl Peredur,

Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mawrth 2023, a'r cyfle i roi sylwadau ar y dogfennau cyllidebol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i lywio gwaith craffu'r Senedd ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24.

Buom yn trafod eich llythyr yn ein cyfarfod ar 30 Mawrth 2023, a gobeithiwn y bydd y myfyrdodau ar ein profiad o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-34 a nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn o gymorth wrth fwrw ymlaen â gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

Rhowch wybod i ni os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: barn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar ddogfennau Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog

### Y cefndir

**1.** Cynhaliwyd gwaith craffu'r Pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 ar 11 Ionawr 2023. Yn unol â'n harfer arferol, fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol ar 28 Hydref 2022, yn gofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn cyflwyniadau oedd 14 Rhagfyr 2022. Cawsom y dogfennau terfynol yn Saesneg ar 21 Rhagfyr 2022. Ni chafwyd y dogfennau Cymraeg tan 9 Ionawr 2023 (roedd ein papurau cyfarfod wedi'u cyhoeddi ar 6 Ionawr 2023). Hefyd, ar 9 Ionawr 2023, cawsom gais i ddisodli rhan o'r cyflwyniad Saesneg gwreiddiol (a oedd eisoes wedi'i gyhoeddi) gyda fersiwn ddiwygiedig.

### Amseroldeb tystiolaeth

**2.** Mae angen derbyn papurau'n ddwyieithog pan ofynnir amdanynt, gyda'r holl atodiadau perthnasol. Dylent hefyd fod yn gywir ac ni ddylid bod angen eu disodli gan fersiynau wedi'u diweddaru neu eu diwygio. Roedd cael tystiolaeth wythnos yn hwyr, a dim ond ychydig cyn gwyliau'r Nadolig, wedi lleihau'r amser a oedd ar gael i'r Aelodau a'n swyddogion ystyried y dystiolaeth a pharatoi ar gyfer y sesiwn dystiolaeth lafar gyda'r Gweinidogion.

### Ffocws y dystiolaeth

**3.** Hoffai'r Pwyllgor pe bai Llywodraeth Cymru yn rhoi y refeniw, a'r negeseuon allweddol i ni; a sut mae'r dyraniadau yn adlewyrchu'r negeseuon hynny; y canlyniadau y maent yn eu disgwyl a sut y byddant yn mesur y canlyniadau hynny. Er ein bod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ymlaen llaw i nodi rhai materion, roedd y dystiolaeth ysgrifenedig yn hir iawn ac nid oedd yn cynnwys manylion penodol.

**4.** Yn y dyfodol, hoffem gael crynodeb o'r prif negeseuon allweddol, o'r newidiadau allweddol ac arwyddocaol (e.e. cynnydd chwyddiant o ran byrddau iechyd, cynnydd o ran cyllid gofal cymdeithasol), pwysau allweddol, amcanion neu flaenoriaethau newydd allweddol, a newidiadau o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dylai'r prif gorff fod wedi'i olygu'n dda a chanolbwyntio'n benodol. Dylai ddangos yn union beth sy'n cael ei wario, ym mha feysydd, yr amserlen ar gyfer y gwariant, a pha effaith/canlyniadau a sicrheir o ran y gwariant hwnnw. Ar gyfer cynlluniau cyfalaf, dylai fod yn benodol ynghylch pa gynlluniau sy'n cael eu hariannu, a beth fydd yn cael ei brynu ac erbyn pryd. Mae diffyg manylion gronynnog yn y dystiolaeth eleni, ac mewn blynyddoedd blaenorol.

**5.** Rhoddir cyfran sylweddol o'r cyllid iechyd yn uniongyrchol i'r byrddau iechyd. Mae angen i'r Pwyllgor gael gwybodaeth am flaenoriaethau'r Gweinidogion ac unrhyw gyfarwyddiadau sy'n ymwneud â'r cyllid hwn, a hynny yn llawer cynharach. Ni allwn weld fod unrhyw reswm pam na

ddylem gael y wybodaeth hon yr un amser â'r byrddau iechyd, ac o leiaf ymhell cyn unrhyw sesiynau tystiolaeth lafar.

## Anghydraddoldebau iechyd a gwariant ataliol

**6.** Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach yn naratif ei chyllideb a'i dogfennau o ran sut mae gwariant mewn DELau eraill yn cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Dylai hyn fod yn glir o ran negeseuon, ac o ran arian, canlyniadau a chamau a nodir.

**7.** Mae hyn hefyd yn wir o ran gwariant ataliol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor:

**8.** Mae angen i ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ddod i law ymhellach ymlaen llaw i'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn er mwyn galluogi Aelodau a rhanddeiliaid i'w ystyried cyn cymryd rhan yn y ddadl a phleidleisio ar y gyllideb. Eleni, cawsom y fersiwn Saesneg y noson cyn y ddadl, a'r fersiwn Gymraeg a'r llythyr eglurhaol ychydig oriau cyn i'r ddadl gael ei chynnal.

## Gwybodaeth am y gyllideb derfynol

**9.** Pan fydd y gyllideb derfynol yn cael ei gosod, dylai gwybodaeth glir am yr hyn sydd wedi newid ers y gyllideb ddrafft gydfynd â hi. Dylai Gweinidogion ysgrifennu at Bwyllgorau sydd wedi gwneud gwaith craffu ar y gyllideb, naill ai i gadarnhau bod dyraniadau'r gyllideb ddrafft wedi'u hadlewyrchu yn y gyllideb derfynol, neu i nodi ble y bu newidiadau.